| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD AR FENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2010/11 (Y FENTER)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **GILL LEWIS – SWYDDOG CYLLID 151 DROS DRO** |
| **GWEITHREDU:** | **I NODI'R ADRODDIAD** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Ymarfer cymharu â chyfatebu data yw'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol (Y Fenter) sydd o gymorth i ddod o hyd i dwyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ar draws y Deyrnas Gyfunol. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gweithio ar y Fenter a'i ymrwymiad i ddod o hyd i dwyll ac ymchwilio iddo.

## 2. CEFNDIR

Mae'r Fenter yn cymharu data ar draws sefydliadau a systemau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i dwyll a gordaliadau. Ers iddynt gychwyn yn 1996, mae ymarferion dan y Fenter hon wedi arwain at atal a dod o hyd i werth dros £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £664 miliwn ar draws y Deyrnas Gyfunol. Ymarfer yw hwn a redir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a weithredir bob 2 flynedd.

Yn yr ymarfer blaenorol, yn 2008-09, llwyddwyd i atal a dod o hyd i ordaliadau a oedd yn werth £4.5 miliwn. Cymerodd 68 o gyrff sector cyhoeddus trwy Gymru rhan yn yr ymarfer gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu, awdurdodau tân, byrddau prawf a chyrff y gwasanaeth iechyd gwladol. Yn ogystal, cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ran ar sail wirfoddol.

Mae'r amrediad o ddata a gymerir ar gyfer yr ymarfer hwn yn cynnwys manylion ynghylch y Dreth Gyngor, Budd-dal Tai, Cyflogau a Phensiynau, Masnachwyr Marchnadoedd, Trwyddedau Tacsis, Tenantiaid Tai, Y Gofrestr Etholiadol, Trwyddedau Parcio Bathodyn Glas. Cymherir y wybodaeth gyda'r wybodaeth a gedwir gan awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill fel Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau.

## 3. YMARFER CYMHARU DATA 2010/11

Daeth y manylion ar gael i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2011 ac roedd modd i ddefnyddwyr dynodedig gymharu data trwy wefan ddiogel y Comisiwn Archwilio. Gellir defnyddio'r wefan hon fel teclyn adrodd pwrpasol sy'n galluogi'r Comisiwn Archwilio i gadw llygad ar gynnydd gyda gwaith a wneir, gan dynnu sylw hefyd at unrhyw faterion y gallai'r Cyngor fod wedi eu methu. Cychwynnwyd yr ymchwiliadau cychwynnol ar 25 Ionawr 2011. Mae'r Cyngor yn delio gyda'r ymarfer Atal Twyll ar ddwy lefel wahanol. Yn ei hanfod, mae hynny'n rhannu'r gwaith rhwng dwy adain wahanol a'r Rheolydd Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am reoli'r ymarfer cyfan. Mae'r Adain Atal Twyll Budd-dal yn yr Adain Budd-daliadau a Refeniw yn yr Adran Gyllid yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl achosion sy'n debygol o ddwyn sylw at Dwyll Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ac mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gyfrifol am yr holl waith arall.

Cafwyd hyd i 3,546 o gyfatebiaethau yn yr ymarfer ac roedd 677 ohonynt yn ymwneud â Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. Oherwydd y nifer fawr o gyfatebiaethau data yn yr ymarfer hwn, penderfynwyd defnyddio dull Y Fenter Twyll Genedlaethol i hidlo'r achosion ac, yn sgil hynny, gostyngwyd y nifer o achosion y byddid yn ymchwilio iddynt i 1,064 gyda 90 ohonynt yn achosion sy'n ymwneud â Budd-dal Tai.

Adroddodd Archwilio Mewnol nad oedd unrhyw achosion o dwyll neu afreoleidd-dra o ganlyniad i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol 2010/11.

## 4. STAFFIO

Mae'r Cyngor yn fodlon bod y lefelau staffio cyfredol yn fwy na digonol i wneud y gwaith hwn ac fe gynhaliwyd yr ymarfer fel rhan o ddyletswyddau arferol yr Adain Archwilio Mewnol a'r Adain Atal Twyll Budd-dal.

## 5. YR YMCHWILIADAU

Yn seiliedig ar ymarferion a wnaed yn flaenorol gan Y Fenter Atal Twyll, mae'r Cyngor yn ymwybodol y byddai'r rhan fwyaf o ganlyniadau cadarnhaol yn dod o'r achosion Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn yr ymarfer. Ar hyn o bryd, mae canlyniadau ar gyfer ymarfer 2010/11 yn adlewyrchu canlyniadau'r ymarfer blaenorol, er bod rhaid nodi bod rhai ymchwiliadau heb eu cwblhau hyd yma.

Mae'r tîm Atal Twyll Budd-dal wedi edrych ar gyfanswm o 129 o achosion. Arweiniodd hynny at 18 o ymchwiliadau twyll llawn ac, fel mae pethau'n sefyll, mae'r ymarfer cenedlaethol ar gyfer atal twyll am y flwyddyn 2010/11 wedi nodi 4 achos o dwyll budd-dal yn ogystal â 3 achos lle 'roedd y swm budd-dal anghywir yn cael ei dalu. Arweiniodd hyn at erlyn un unigolyn a oedd yn derbyn budd-dal am fethu â datgan ei bensiwn gwaith, 2 achos lle derbyniwyd Rhybudd Ffurfiol ac un achos arall lle rhoddwyd Cosb Weinyddol. Ar hyn o bryd, nodwyd bod y gordaliadau budd-dal hyd yma yn £27,315.96 ac mae'r Cyngor yn y broses o adennill yr holl arian hwn. Amlinellir canlyniad llwyddiannus o'r ymarfer hwn isod:

*Ar 24/01/2012, ymddangosodd Mr Trevor Williams, Tai Newydd, Brynsiencyn yn Llys Ynadon Caergybi lle pleidiodd yn euog i 6 throsedd wahanol o wneud datganiad ffug yn fwriadol er mwyn hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. Cafwyd hyd i'r achos hwn trwy'r ymarfer Atal Twyll yn 2010/2011 pryd darganfuwyd bod gan Trevor Williams bensiwn gwaith nad oedd wedi ei ddatgelu pan hawliodd fudd-dal o Awst 2006. Dros gyfnod o 5 mlynedd, roedd wedi derbyn £11,608.28 o Fudd-dal Tai a £1,958.03 o Fudd-dal y Dreth Gyngor nad oedd ganddo hawl i'w cael. Cafodd ddirwy o £200 gan y llys a gorchymyn i dalu costau o £240. Ers hynny, mae wedi gwneud cytundeb i ad-dalu'r arian a gafodd trwy dwyll.*

Er bod y rhan fwyaf o'r achosion cyfatebu wedi eu clirio, mae o leiaf 4 o achosion eraill o dwyll budd-dal yn cael sylw a rhagwelir y bydd yr ymarfer hwn wedi dod o hyd i dwyll sydd yn werth dros £40,000.

Fe ymchwiliodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y data cyfatebol isod o fewn y safle National Fraud Initiative 2010/11:

- **Cyflogres yn erbyn Cyflogres – 9 yn gyfatebol**
  Archwiliwyd nhw oll a dim canlyniadau

- **Cyflogres yn erbyn Credydwyr – 260 yn gyfatebol, 112 yn argymelledig gyda 73 wedi eu cau;**
  O'r 73 a archwiliwyd, doedd yna ddim canlyniad.

- **Cyflogres yn erbyn Rhifau Yswiriant Gwladol – 4 yn gyfatebol**
  Arsylwyd fod dau Swyddog o'r Adran Addysg gyda rhifau Yswiriant Gwladol dros dro. Rhoddwyd wybod i'r Swyddog sy'n delio a'r gyflogres a cafodd ei gywiro.

- **Cyflogres yn erbyn Pensiynnau- 11 yn gyfatebol**
  Fe wnaeth yr Archwiliwr gynorthwyo Cyngor Gwynedd gyda unrhyw ymholiadau am weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

  Fe wenath Gwasanaeth Archwilio ddelio a ymholiadau gan awdurdodau eraill ynghlyn a'r NFI.

## 6. CASGLIAD AC YMARFERION YN Y DYFODOL

Ystyrir bod Y Fenter Twyll Genedlaethol yn ddefnyddiol iawn o ran mynd i'r afael â thwyll ac mae'r Cyngor yn bwriadu chwarae rhan lawn mewn ymarferion yn y dyfodol a pharhau gyda'i ymrwymiad i ganfod a mynd i'r afael â thwyll a chamgymeriadau. Erbyn yr ymarfer nesaf, rhagwelir y bydd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi cyhoeddi ei adroddiad "Ymladd Twyll yn Lleol" a bydd arferion da wedi eu sefydlu i ymchwilio i fathau eraill o dwyll yn erbyn y Cyngor. Gallai'r rhain gynnwys twyll o ran Tenantiaethau Tai a thwyll gyda Thrwyddedau Parcio Bathodyn Glas.

**ADRODDIAD GAN – ANDREW WILLIAMS**
**RHEOLYDD TWYLL DROS DRO**

**AR RAN – GILL LEWIS**
**SWYDDOG CYLLID 151 DROS DRO** **6 CHWEFROR 2012**